

---

# CGGC 2018

CYNHADLEDD  
GENEDLAETHOL  
G O F A L  
CYMDEITHASOL

---

11-13 M E D I

---

---

R H A G L E N Y  
P A R T H D Y S G U

---

YNG NGHOLEG BRENHINOL  
CERDD A DRAMA CYMRU,  
CAERDYDD

# Lansio'r gynhadledd

Dydd Mawrth, 11 Medi

<b>6.00-8.00pm</b> Man arddangos, Cyntedd	<b>Derbyniad y gynhadledd</b>
---	-------------------------------

# Sesiynau'r Parth Dysgu – diwrnod 1

Dydd Mercher, 12 Medi

<b>9.30-10.00am</b> Theatr Richard Burton, Llawr gwaelod	<b>John Williams ac Alan Clarke, Prifysgol Aberystwyth</b> <i>Prosiect Dewis</i> Ymchwilyr o Brifysgol Aberystwyth ac ymarferwyr yn rhoi adborth am eu prosiectau peilot yn Sir Gaerfyrddin a Chaerdydd yn ymwneud ag adnabod yr arwyddion rhybuddio cynnar o gam-drin henoed a rhoi dewis i bobl hŷn mewn diogelu
<b>10.00-10.30am</b> Theatr Richard Burton, Llawr gwaelod	<b>Beti George, Darlledwr radio a theledu Cymraeg</b> <i>Adroddiad personol am ofalu am anwyliad â dementia</i> Cafodd partner Beti George, David Parry-Jones, ddiagnosis o glefyd Alzheimer yn 2009, a gofalodd amdano hyd nes ei farwolaeth yn 2017. Ers hynny, mae Beti wedi parhau â'i hymgyrch diflino dros gymorth gwell i'r rheiny sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr. Yn y sesiwn hon, bydd Beti yn rhoi adroddiad didwyll a phersonol o sut beth ydyw i ofalu am anwyliad â dementia, yn ogystal â rhoi ei barn ynglŷn â sut dylid gwella cymorth i'r rheiny yr effeithir arnynt gan y clefyd
<b>10.30-11.00am</b> Theatr Richard Burton, Llawr gwaelod	<b>Hilary Hyett, Tîm Adnoddau Cymunedol Gogledd a Gorllewin Caerdydd</b> <i>Darparu gofal a chymorth amlddisgyblaethol i gartrefi gofal trwy gydweithio, a datblygu Cartref Gofal Caerdydd</i> Sut mae'r Tîm Cymorth Integredig Gofal Cartref (CHIST) yn darparu cymorth ac addysg i gartrefi gofal preifat ledled Caerdydd drwy weithio rhyngasiantaethol. Trwy ymyrraeth dargedig, cymorth ac addysg staff, mae'r tîm wedi dangos gwelliannau o ran y defnydd o alwadau 999, defnyddio gwasanaethau tu allan i oriau, presenoldeb a chyfnodau mewn unedau brys, a nifer y derbyniadau i'r ystyby
<b>11.00-11.30am</b> Theatr Richard Burton, Llawr gwaelod	<b>Claire O'Shea, Ymgyrch i Roi Terfyn ar Unigrwydd</b> <i>Beth allwn ni ei wneud i roi terfyn ar unigrwydd?</i> Mae'r Ymgyrch i Roi Terfyn ar Unigrwydd wedi bod yn archwilio beth mae'n ei olygu i fod yn unig mewn ardaloedd gwledig ac anghysbell yng Nghymru. Mae'r materion a wynebwr yn cynnwys cymunedau gwasgareddig, problemau trafnidiaeth, diffyg gwasanaethau, a heriau cyflogaeth afreolaidd ac ansefydlog. Mae'r sesiwn hon yn archwilio sut gallwn ni greu cysylltiadau mewn cymunedau
<b>11.30-12.30pm</b> Theatr Richard Burton, Llawr gwaelod	<b>Emma Sullivan ac Aiden Richards gyda phobl ifanc sy'n derbyn gofal, Plant yng Nghymru a Voices from Care</b> <i>Dod â chyswllt i'r 21ain ganrif</i> Gweithdy rhyngweithiol yn cael ei gyflwyno gan bobl ifanc o ofal ynglŷn â dod â chyswllt i'r 21ain ganrif. Yn cynnwys straeon a phrofiadau go iawn o gyswllt mewn gofal, bydd y sesiwn hon yn archwilio hybu perthnasoedd brodyr a chwiorydd, ac yn cynnwys y defnydd o dechnoleg a'r cyfryngau cymdeithasol wrth wneud cynlluniau cyswllt

<b>12.30-1.00pm</b> Theatr Richard Burton, Llawr gwaelod	<b>Pobl yr effeithir arnynt gan ddementia o bob rhan o Gymru, gyda chymorth Huw Owen a Jane Platts, Cymdeithas Alzheimer's Cymru</b> <i>Trafodaeth banel am ddementia</i> Eisiau gwybod mwy am sut beth ydyw i fyw gyda dementia neu i ofalu am rywun â dementia? Bydd y sesiwn hon yn rhoi cyfle i ymarferwyr roi eu cwestiynau gerbron panel o bobl sy'n byw gyda dementia, eu gofalwyr a'u cynorthwyr sydd â phrofiad o gael a defnyddio gofal cymdeithasol yng Nghymru
---	--

<b>1.00-1.30pm</b> Theatr Richard Burton, Llawr gwaelod	<b>Amy Davies, gweithiwr cymdeithasol a gofalwr maeth</b> <i>Stori Amy</i> Mae Amy Davies yn ysbrydoliaeth. Ar ôl treulio llawer o'i phlentyndod mewn gofal maeth, y llynedd derbyniodd Amy ei gradd MA o Brifysgol Caerdydd tra'n gofalu am ei mab a phump o blant maeth yn llawn amser. Erbyn hyn, mae Amy yn gweithio fel gweithiwr cymdeithasol. Yma, mae'n adrodd hanes ei phrofiad o'r system ofal o safbwyntiau gwahanol
--	---

<b>1.30-2.30pm</b> Theatr Richard Burton, Llawr gwaelod	<b>Stuart Khokhar, gofalwr maeth</b> <i>Cefnogi a sefydlogi lleoliadau maeth</i> Mae'r gofalwr maeth Stuart Khokhar yn rhannu ei fyfyrddodau ynglŷn â phenderfyniad ei deulu i ddod yn ofalwyr maeth. Yn y sesiwn hon, bydd yn sôn am brofiad y teulu o'r broses recriwtio ac asesu, a sut beth ydoedd i feithrin plentyn o'i enedigaeth am y tro cyntaf
--	--

<b>2.30-3.30pm</b> Theatr Richard Burton, Llawr gwaelod	<b>Liane James, Prif Gwnstabl Cynorthwyol, wedi'i secondio i Dîm Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Llywodraeth Cymru</b> <i>Effeithiolrwydd ymateb Llywodraeth Cymru, Partneriaeth Diogelwch Cymunedol a gwasanaethau cyhoeddus eraill i adolygiadau o ddynladdiadau domestig</i> Yn y sesiwn hon, bydd Liane James yn trafod canfyddiadau ei gwaith sy'n edrych ar effeithiolrwydd adolygiadau o ddynladdiadau domestig yng Nghymru. Nod yr adolygiadau hyn yw atal llofruddiaethau domestig drwy nodi'r gwersi a ddsygwyd o achosion blaenorol, a chymryd camau i sicrhau newid
--	--

<b>3.30-4.30pm</b> Theatr Richard Burton, Llawr gwaelod	<b>Martina McCrossan a Kathy s'Jacob, Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru ac AFA Cymru</b> <i>Gwaith taith bywyd</i> Bydd y sesiwn hon yn archwilio'r achos dros newid o ran y modd y cyflawnir gwaith taith bywyd yng Nghymru yn seiliedig ar farnau pobl ifanc sydd wedi'u mabwysiadu a rhieni sy'n mabwysiadu, yn ogystal ag ymchwil a thystiolaeth ynglŷn â pham y mae'n hollbwysig bod gwaith taith bywyd yn cael ei wneud yn dda ac mewn modd amserol
--	--

<b>4.30-5.00pm</b> Theatr Richard Burton, Llawr gwaelod	<b>Gemma Halliday a Liz King-Jones, Gofal Cymdeithasol Cymru</b> <i>Helpu mwy o weithwyr gofal i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu swyddi</i> Rhaglen beilot yw Cymraeg Gwaith a'i nod yw annog mwy o weithwyr gofal i siarad Cymraeg. Bydd y sesiwn hon yn cyflwyno'r prosiect ac yn archwilio rhai o'r offer y trefnir eu bod ar gael i helpu gweithwyr gofal i wella'u sgiliau Cymraeg fel eu bod yn teimlo'n fwy hyderus yn defnyddio'r Gymraeg gyda phobl y maent yn gofalu amdanynt
--	--

## Sesiynau ychwanegol y Parth Dysgu

Dydd Mercher, 12 Medi

<b>9.00-9.30am</b> Stiwidio Seligman, Llawr gyntaf	<b>Chris Richards a Katie Fry, Cyngor ar Bopeth Casnewydd Gwasanaeth Cymorth Gamblo</b> <i>Lleihau niwed yn gysylltiedig â gamblo mewn asiantaethau rheng flaen</i> Bydd y gweithdy hwn yn edrych ar gyffredinrwydd niwed yn gysylltiedig â gamblo ac yn rhoi offer ymyrryd byr i ymarferwyr, yn ogystal â gwybodaeth am wasanaethau cymorth lleol a chenedlaethol
<b>9.30-10.30am</b> Stiwidio Simon Gibson, Ail lawr	<b>Dawn Hutchinson a Charlotte Oliver, Grŵp Llywio Gweithwyr Cymdeithasol Ymgynghorol Cymru Gyfan</b> <i>Dal yr heulwen a'r cysgodion: helpu plant i wneud synnwyr o ddigwyddiadau bywyd trawmatig</i> Bydd y sesiwn hon yn helpu ymarferwyr i ddeall sut i drafod digwyddiadau bywyd trawmatig yn ddiogel wrth ddarparu gwaith taith bywyd. Bydd yn rhoi syniadau ymarferol ar gyfer mynd i'r afael â'r materion hyn gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion
<b>10.30-11.30am</b> Stiwidio Shirley Bassey, Ail lawr	<b>Emma Jenkins ac Alison Turner, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf a Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg</b> <i>Ymagwedd gadarnhaol at ofal: grymuso'r gweithlu gofal cymdeithasol</i> Bydd y sesiwn hon yn esbonio'r ymagwedd gadarnhaol at athroniaeth gofal, yn archwilio beth y mae pobl â dementia ei eisiau, ei angen ac yn ei feddwl, ac yn edrych ar strategaethau ymarferol i helpu ymarferwyr ymateb ac adweithio i bobl â dementia, a'u helpu i wella'u deilliannau llesiant
<b>10.30-11.30am</b> Stiwidio Seligman, Llawr cyntaf	<b>Laura Tranter, Charlotte Waite, Chloe Cooper a Seren Hamilton, Canolfan ACE</b> <i>Profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a chi</i> Darn theatr byr yn cynnwys pobl ifanc, sy'n archwilio profiadau niweidiol yn ystod plentyndod o'u safbwyntiau nhw
<b>10.30-11.30am</b> Stiwidio Simon Gibson, Ail lawr	<b>Sara Harvey, Wendy Thomas a Frances Rees, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru</b> <i>A ydych chi'n teimlo'n gadarnhaol ynglŷn â gweithio gydag awtistiaeth?</i> Golwg ar ethos a chynnydd y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig newydd ledled Cymru, gan gynnwys astudiaethau achos. Bydd y sesiwn hon hefyd yn archwilio cynyddu ymwybyddiaeth o anhwylder y sbectwm awtistiaeth ymhlith cyflogwyr
<b>11.30-12.30pm</b> Stiwidio Seligman, Llawr cyntaf	<b>Huw Davies, Richard Thomas a Valerie Billingham, Age Cymru – Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraid a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr</b> <i>Datblygu model lleol ar gyfer darparu eiriolaeth broffesiynol annibynnol</i> Bydd y sesiwn hon yn archwilio'r model comisiynu a ddefnyddir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i ddarparu ei wasanaeth eiriolaeth broffesiynol annibynnol i oedolion. Bydd yn canolbwyntio ar benderfyniad Pen-y-bont ar Ogwr i gomisiynu model peilot arloesol prif ganolfan a lloerennau i ddarparu'r gwasanaeth hwn
<b>11.30-12.30pm</b> Stiwidio Simon Gibson, Ail lawr	<b>Vicky Poole a Christine Jones, Arolygiaeth Gofal Cymru</b> <i>Adolygu'r fframwaith awdurdod lleol ar gyfer arolygu ac adolygiad o berfformiad</i> Mae'r Arolygiaeth yn awyddus i glywed eich barn ynglŷn â'i adolygiad o'i fframwaith awdurdod lleol ar gyfer arolygu ac adolygu perfformiad
<b>12.30-1.30pm</b> Stiwidio Seligman, Llawr cyntaf	<b>Steve Vaughan, Keith Moultrie a Janet Kelly, Y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol a'r Sefydliad Gofal Cyhoeddus, Prifysgol Brookes Rhydychen</b> <i>Arweiniad ar gomisiynu gwasanaethau'n integredig ar gyfer plant ag anghenion cymhleth yn sgil anabledd a/neu afiechyd</i> Cyflwyniad i'r arweiniad newydd a ddatblygwyd gan y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol a'r Sefydliad Gofal Cyhoeddus i helpu awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol yng Nghymru symud tuag at ymagwedd sy'n fwy seiliedig ar ddeilliannau at gomisiynu gofal a chymorth ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth
<b>12.30-1.30pm</b> Stiwidio Simon Gibson, Ail lawr	<b>Joanne Bartlett, Canolfan Cydweithredol Cymru</b> <i>Gwneud cydweithfeydd micro yn realiti</i> Mae cydweithfeydd micro yn fodel newydd ar gyfer darparu gofal a chymorth yn cael eu harwain gan y dinesydd sy'n rhoi perchenogaeth a rheolaidd i'r dinesydd dros y gofal a gaiff. Mae'n gweithio mewn cydweithrediad â theulu a ffrindiau i gynllunio ac adolygu ei drefniadau cymorth. Bydd y sesiwn hon yn edrych ar y modd y gellid defnyddio'r model datblygol hwn i gynorthwyo pobl hŷn ac oedolion ag anawsterau dysgu

**12.30-1.30pm**  
Stiwidio Shirley  
Bassey, Ail lawr

**Philip Provenzano a Sarah Broadhurst, Y Sefydliad Gofal Cyhoeddus, Prifysgol Brookes Rhydychen**

*Celfyddyd yr hyn sydd yn bosibl: galluogi bywydau da i bobl ag anabledd dysgu a/neu awtistiaeth, a rheoli'r galw*

Bydd y sesiwn hon yn archwilio'r cydbwysedd rhwng galluogi pobl ag anabledd dysgu a/neu awtistiaeth i fyw bywydau da yn eu cymunedau, tra'n rheoli'r galw ac adnoddau'n well

## Sesiynau'r Parth Dysgu – diwrnod 2

Dydd Iau, 13 Medi

<b>9.30-10.00am</b> Theatr Richard Burton, Llawr gwaelod	<b>Judith Davies, Dot Williams, Malcolm Thomas a Diane Cooper, Y Brifysgol Agored</b> <i>Wyneb newidiol addysg gofal cymdeithasol a gwaith cymdeithasol – safbwynt dysgu o bell</i> Mae cyflogwr, myfyriwr a thiwtor yn rhannu'u profiadau o ddysgu o bell yn y sesiwn hon a gyflwynir gan Judith Davies, Pennaeth Gwaith Cymdeithasol (Cymru) yn Y Brifysgol Agored
<b>10.00-10.30am</b> Theatr Richard Burton, Llawr gwaelod	<b>Jon Day a Kate Salter, Gofal Cymdeithasol Cymru</b> <i>Denu mwy o bobl i weithio mewn gofal cymdeithasol</i> Rhannu'r meddwl cynnar tu ôl i ymgyrch cenedlaethol mawr i ddenu a recriwtio mwy o bobl i weithio ym maes gofal cymdeithasol, a'r blynyddoedd cynnar a gofal plant
<b>10.30-11.30am</b> Theatr Richard Burton, Llawr gwaelod	<b>Alistair Davey a Phil Evans, gyda Natalie Avery a Henry Vaile, Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar gyfer Gwella Deilliannau i Blant</b> <i>Gwaith Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar gyfer Gwella Deilliannau i Blant</i> Mae gwaith Grŵp Cynghori'r Gweinidog yn canolbwyntio ar nodi camau cynnar ac ataliol i helpu lleihau niferoedd y plant sy'n mynd i mewn i ofal, yn ogystal â gwella deilliannau i blant sydd eisoes mewn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal. Bydd y sesiwn hon yn dangos gwaith presennol y grŵp ac yn gofyn am adborth gan ymarferwyr ynglŷn â'i flaenoriaethau
<b>11.30-12.30pm</b> Theatr Richard Burton, Llawr gwaelod	<b>Jessica Matthews, Gofal Cymdeithasol Cymru</b> <i>Egluro deilliannau personol</i> Mae gweithio mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau yn helpu pobl sy'n derbyn gofal a chymorth i gyflawni deilliannau gwell, ac mae gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithio yn y ffordd hon wedi dweud bod hyn yn rhoi mwy o foddhad iddynt yn eu swydd. Mae'r sesiwn hon yn rhoi cyfle i ymarferwyr wella eu dealltwriaeth o ddeilliannau personol a sut gallant weithio mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau

## Sesiynau Parth Dysgu ychwanegol

<b>9.30-10.15am</b> Stiwidio Seligman, Llawr cyntaf	<b>Heidi Goodwin, Gwasanaethau Plant Barnardo's</b> <i>Ar ymyl gofal: gwrthwynebiad rhieni</i> Bydd y sesiwn hon yn archwilio'r offer therapiwtig ar gyfer hyrwyddo newid, gweithio gyda gwerthoedd a chryfderau teuluoedd, a chydweithio â gwrthwynebiad. Bydd yn esbonio hefyd pam mae'r gwasanaeth yn gwerthfawrogi'r technegau hyn i'w helpu i chwalu rhwystrau gyda theluoedd, a meithrin cydberthynas ac ymddiriedaeth
<b>10.30-11.00am</b> Stiwidio Seligman, Llawr cyntaf	<b>Gwyndaf Parry a Suzanne Draper, Gofal Cymdeithasol Cymru a Data Cymru</b> <i>Set Ddata Genedlaethol Cymru ar gyfer Gofal Cymdeithasol</i> Yn gynharach eleni, lanswyd y set ddata genedlaethol gyntaf ar gyfer gofal cymdeithasol i Gymru gan ddod ag ystod o ddata ynghyd o wahanol ffynonellau ynglŷn â chyflenwad a galw gwasanaethau gofal cymdeithasol. Bydd y sesiwn hon yn edrych ar y modd y gall ymarferwyr ddefnyddio'r data hwn yn ei gwaith
<b>11.30-12.15pm</b> Stiwidio Seligman, Llawr cyntaf	<b>Emma Popo a Julian Fabian, NSPCC</b> <i>Gwneud y penderfyniad iawn ar gyfer plant sy'n derbyn gofal – fframwaith yn cael ei lywio gan dystiolaeth</i> Bydd y sesiwn hon yn ymdrin ag ystagedau ynglŷn â gadael gofal a deilliannau'r rheiny sy'n dychwelyd adref, cyflwyniad i'r fframwaith a'r sail dystiolaeth, rhoi'r fframwaith ar waith – ymagweddau a phrofiadau, deall y cyd-destun Cymreig, a mwy

## Y parth rhwydweithio

Dydd Mercher, 12 Medi

### CORNEL YMCHWIL

Yn y cornel ymchwil gofal cymdeithasol, gallwch:

- glywed a darllen am ymchwil gofal cymdeithasol gyfredol yng Nghymru
- dysgu am ddolenni at ymchwil gofal cymdeithasol a allai fod o ddiddordeb i chi
- canfod beth mae Gofal Cymdeithasol Cymru ac Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn ei wneud i gynorthwyo ymchwil gofal cymdeithasol yng Nghymru
- siarad ag Ysgol Ymchwil Gofal Cymdeithasol Cymru ynglŷn â'ch syniadau ar gyfer ymchwil a sut i'w dwyn yn eu blaen.

Gallwch ymweld â'r cornel ymchwil unrhyw bryd yn ystod y dydd. Bydd sgysiau rhyngweithiol amser cinio ac yn ystod yr egwyl de yn y bore.

### AMSERLEN

<b>10.45-11.15am</b>	<b>Heather Tyrrell</b> <i>Datblygu modelau cydgynhyrchu o oruchwyliaeth gwaith cymdeithasol sy'n seiliedig ar ganlyniadau</i>
<b>12.15-1.00pm</b>	<b>Fiona Verity a Nick Andrews, Ysgol Ymchwil Gofal Cymdeithasol</b> <i>Sesiwn "catch a hatch"</i>
<b>1.00-1.30pm</b>	<b>Dr Christala Sophocleous, WISERD – Prifysgol Caerdydd</b> <i>Gwerth cymdeithasol systemau gofal cymdeithasol</i>
<b>3.00-3.30pm</b>	<b>Dr Alison Orrell, Prifysgol Bangor</b> <i>Dadansoddiad rhwydwaith cymdeithasol yng Ngogledd Cymru</i>
<b>Trwy'r dydd</b>	<b>Lisa Trigg a Gwyndaf Parry, Gofal Cymdeithasol Cymru</b> <i>Diogelu data ar gyfer y dyfodol – rhannu eich meddyliau am ddefnyddio data mewn ymchwil</i>
<b>Trwy'r dydd</b>	<b>Ysgol Ymchwil Gofal Cymdeithasol</b> <i>Siaradwch ag ymchwilwyr – dysgwch sut i gynyddu syniad ymchwil</i>

### STONDINAU YMCHWIL

<b>1</b>	<b>Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru</b>
<b>2</b>	<b>Gofal Cymdeithasol Cymru</b>
<b>3</b>	<b>Ysgol Ymchwil Gofal Cymdeithasol Cymru</b>
<b>4</b>	<b>The Dementia Engagement and Empowerment Project (DEEP)</b>
<b>5</b>	<b>Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd, Data a Dulliau Cymru (WISERD)</b>
<b>6</b>	<b>Dysgu ac Addysg Proffesiynol Parhaus i Weithwyr Cymdeithasol yng Nghymru (DAPP)</b>
<b>7</b>	<b>Enrich / My Home Life Cymru</b>

## Ein harddangoswyr

Mae'n bleser gennym groesawu bron i 50 o arddangoswyr i'r Gynhadledd Gofal Cymdeithasol Genedlaethol yn 2018. Dyma restr o'n harddangoswyr a ble i ddod o hyd iddyn nhw...

STONDIN ARDDANGOSWR	STONDIN ARDDANGOSWR
1 CareWorks	27 Cymdeithas Siartredig Ffisiotherapi
2 NSPCC Cymru	28 Academi Wales
3 NSPCC Cymru	29 Llywodraeth Cymru
4 Y Brifysgol Agored yng Nghymru	30 Cefnogi Trydydd Sector Cymru
5 Practice Solutions	31 Tunstall Healthcare
7 ADSS Cymru	32 Age Cymru
8 Gofal Cymdeithasol Cymru	33 Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru
9 ICS Assessment Services	34 Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Gogledd Cymru
10 Data Cymru	35 GMB
11 Dewis Cymru	36 Arddangosfa celf
12 Skylakes	37 Arddangosfa celf
13 CM2000	38 Arddangosfa gofal gan frodyr/chwiorydd
14 Appropriate Adults UK	39 Arddangosfa gofal gan frodyr/chwiorydd
15 Barnardo's Cymru	40 Accomplish
16 Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol	41 Forget Me Not Choir
17 Cydffederasiwn GIG Cymru	42 Wales & West Utilities
18 Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol Cymru	43 GambleAware
19 Canolfan Cydweithredol Cymru	44 Delta Wellbeing
20 Shared Lives Plus	45 Iechyd Cyhoeddus Cymru
21 The Guardian	46 Cymdeithas Alzheimer's
22 Regener8	47 HC-One
23 Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru	48 Gofal Cymunedol
24 Plant yng Nghymru	49 Wal Post-It
25 BASW Cymru	50 Wal syniadau
26 Disabled Living Foundation	